# PWYLLGOR CYNLLUNIO

Cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Cynllunio a gynhaliwyd yn Siambr y Cyngor, Rhuthun ar ddydd Mercher 31ain Awst 2005 am 9.30am.

## YN BRESENNOL

Y Cynghorwyr: S. Thomas (Cadeirydd), J.R. Bartley, R.E. Barton, B. Blakeley (sylwedydd), J. Chamberlain-Jones, J.M. Davies, M.LL. Davies, S.A. Davies, G.C. Evans, H.H. Evans, I.M. German, D. Hannam, K Hawkins, T.K. Hodgson, T.R. Hughes, D. Jones, E.R. Jones, H. Jones, M.M. Jones (sylwedydd), G.M. Kensler, P.W. Owen, D.A.J. Thomas, J. Thompson-Hill, C.H. Williams, E.W. Williams, Lloyd Williams

## HEFYD YN BRESENNOL

Pennaeth Gwasanaethau Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd, Rheolwr Gwasanaethau Cyfreithiol, Rheolwr Rheoli Datblygiad, Arweinydd Tîm (Prif Gymwysiadau), Uwch Swyddog Cefnogi (G Butler), Swyddog Gweinyddol (Judith Williams), Bryn Jones (Cyfieithydd) a Sue Broadway (Rheolwr Priffyrdd yn mynychu ar gyfer cais 2/2005/333 - Safle Tesco, Rhuthun)

## DERBYNIWYD YMDDIHEURIADAU ODDI WRTH

J. Butterfield, E.C. Edwards, S. Frobisher, M.A. German, N. Hugh-Jones, M.A. Webster

## 310 MATERION BRYS

Dim.

## 311 CEISIADAU AM GANIATÂD I DDATBLYGU

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Bennaeth y Gwasanaethau Cynllunio (a ddosbarthwyd ymlaen llaw) yn rhestru cynlluniau a gyflwynwyd ac a oedd angen eu penderfynu gan y Pwyllgor.

***PENDERFYNWYD**:-*

*(a) Cadarnhau'r argymhellion a wnaed gan y Swyddogion, fel y cynhwyswyd yn yr adroddiad a gyflwynwyd nawr, a rhoi caniatâd cynllunio neu wrthod fel y bo'r achos, fel y bo'n briodol dan Orchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygiad Cyffredinol a Ganiateir) 1995, Deddf Cynllunio ac Iawndal 1991, Rheoliadau Hysbysebion Cynllunio Gwlad a Thref 1994 a/neu Ddeddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990 i'r datblygiad a gynigir gan y cynlluniau canlynol yn ddarostyngedig i'r amodau a restrir yn yr atodlen a gyflwynir nawr:*

(i) Caniatâd

| Rhif y Cais | Disgrifiad a Lleoliad |
|---|---|
| 43/2005/0567/PF | (Datganodd y Cynghorydd Dr James Davies ddiddordeb yn y cais canlynol a gadawodd y Siambr tra ystyriwyd y mater).<br>Disgrifiad: Dymchwel darn o'r to gwastad presennol a chodi estyniad to ar ongl.<br>**Eglwys Fethodistaidd y Drindod 4 Gronant Road Prestatyn**<br>CANIATAWYD |
| 44/2005/0822/PF | (Datganodd y Cynghorydd Selwyn Thomas ddiddordeb yn y cais canlynol a gadawodd y Siambr tra ystyriwyd y mater).<br>Disgrifiad: Codi estyniad i ysgubor storio bresennol.<br>**Clwyd View Marsh Road Rhuddlan Y Rhyl**<br>CANIATAWYD. Yn amodol ar: Amod ychwanegol<br>3. Dylid defnyddio'r estyniad a ganiateir trwy hyn ar gyfer storio offer amaethyddol ac fel storfa amaethyddol gysylltiedig (ond nid ar gyfer |

| | |
|---|---|
| | cadw da byw) oni chymeradwyir hynny fel arall yn ysgrifenedig gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol.<br>Rheswm: Rheoli'r defnydd er budd mwynderau preswyl. |
| 45/2005/0477/PR | Disgrifiad: Cymeradwyo dyluniad a golwg allanol yr adeiladau a'r tirweddu a gyflwynwyd yn unol ag Amod 1 caniatâd cynllunio amlinell 45/2004/0043/PO<br>**Cyn Ganolfan SAAB Gogledd Cymru Morville Garage 27-28 Rhodfa'r Dwyrain Y Rhyl**<br>CANIATAWYD |
| 45/2005/0739/PF | Ar ôl ystyried manylion Ymweliad Safle a gynhaliwyd ar 24ain Awst 2005<br>Disgrifiad: Adeiladu estyniad gyda tho ar ongl i ochr tŷ annedd a modurdy dwbl ar wahân gyda storfa drosodd<br>**8 Hazel Court Y Rhyl**<br>CANIATAWYD, yn ddarostyngedig i Amod Ychwanegol:<br>4. O fewn 2 fis i ddyddiad y penderfyniad hwn, dylid cyflwyno cynllun tirweddu caled a meddal ar gyfer ffin ogledd-orllewin y safle gyda Ffordd Anwyl i'r Awdurdod Cynllunio Lleol ar gyfer cymeradwyaeth, gyda'r cynllun yn cynnwys manylion:<br>a) coed, gwrych, prysgwydd neu lystyfiant newydd arfaethedig gan gynnwys cadarnhad o'r rhywogaethau, niferoedd a lleoliad;<br>b) lleoliad, dyluniad, deunyddiau a math o driniaeth ffiniau arfaethedig.<br>Dylid gwneud yr holl blannu, tywarchu, ffensio, adeiladu muriau neu unrhyw driniaeth arall yn y manylion tirweddu a gymeradwyir yn y tymor plannu a hadu nesaf h.y. cyn diwedd Mawrth 2006 a dylid disodli unrhyw goed neu blanhigion sydd, o fewn cyfnod o bum mlynedd o'r datblygiad, yn marw, cael eu tynnu allan neu eu difrodi'n ddifrifol neu gydag afiechyd difrifol yn y tymor plannu nesaf gyda rhai o faint a rhywogaeth debyg. |
| 45/2005/0763/PF | **Siaradwr Cyhoeddus o blaid R.A. Salisbury (Gamlins)**(ar ran yr ymgeisydd)<br>(Datganodd Hughie Jones ddiddordeb)<br>Ar ôl ystyried 1 llythyr ychwanegol gan Asiantaeth yr Amgylchedd<br>Disgrifiad: Adeiladu estyniad llawr cyntaf gyda tho ar ongl i ochr tŷ annedd a modurdy dwbl ar wahân gyda storfa drosodd<br>**Tir yn Brookdale Road Y Rhyl**<br>PENDERFYNWYD CANIATÁU, yn amodol ar yr ymgeisydd yn gwneud ymrwymiad Adran 106 yn ymwneud â darpariaethau tai fforddiadwy a swm cymudedig ar gyfer man agored oddi ar y safle<br>A'r Amodau canlynol Diwygiedig/Ychwanegol<br>6. Dylai lefelau gorffenedig yr unedau gael eu gosod ar o leiaf 6.75m AOD. Dylid hefyd ymgymryd â'r datblygiad yn unol â'r technegau adeiladu gwrth-lifogydd a nodwyd yn yr adroddiad Asesiad Canlyniadau Llawr dyddiedig Tachwedd 2004 gan Gifford.<br>9. Ychwanegu "Dylid darparu mynediad i The Cut ar gyfer Asiantaeth yr Amgylchedd, a mynediad i Coronation Gardens yn unol â'r manylion a gymeradwywyd cyn i neb fyw yn y tai annedd a ganiateir trwy hyn".<br>12. Dylai'r manylion tirweddu sydd eu hangen dan Amod 7 gynnwys manylion triniaeth ffin safle'r cais gyda Rhyl Cut gan gynnwys ffensio, cadw gerddi, a phlannu. Dylid gweithredu triniaeth y ffin gyda Rhyl Cut yn llawn cyn i neb fyw yn y tai a ganiateir trwy hyn a'u cadw wedi hynny. |
| 47/2005/0431/PF | Ar ôl ystyried cywiriad i'r adroddiad<br>Disgrifiad: Dymchwel adeilad a chodi lloc pwll nofio |

**Toledo Cottage Rhuallt Llanelwy**
CANIATAWYD. Yn amodol ar amodau diwygiedig/ychwanegol:
3. “a ganiatawyd" "llety"
4. Cyn cychwyn unrhyw ddatblygiad ar y safle, dylid cyflwyno manylion plannu coed a gwrychoedd ar gyfer y safle cyfan, gan gynnwys plannu gwrych yng nghefn y pwll nofio, a'u cyflwyno i a'u cymeradwyo'n ysgrifenedig gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol.
5. Holl blannu coed a gwrychoedd ac ati.
6. Er gwaethaf darpariaethau'r Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygiad Cyffredinol a Ganiateir) 1995, ni ddylid ymgymryd ag unrhyw ddatblygu pellach gan Ddosbarth E o Atodlen 2 y Gorchymyn ar y safle cais heb ganiatâd cynllunio pellach gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol.
Rheswm: Er budd cymeriad a golwg yr Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol.
(Gofynnwyd i'r swyddogion fonitro'r safle'n rhagweithiol, yn enwedig o ran y gofynion tirweddu).

01/2004/1612/PO

Ar ôl ystyried 1 llythyr ychwanegol oddi wrth: Pennaeth Cludiant ac Isadeiledd.
Disgrifiad: Datblygu 0.23ha o dir i ddibenion preswyl a newid mynediad presennol i gerbydau 9cais amlinell)
**Abbey Garage Rhyl Road Dinbych**
CANIATAWYD yn amodol ar Amod Diwygiedig:
4.(a)(i) Unedau tai fforddiadwy i gynnwys o leiaf 30% o'r unedau tai i'w datblygu a math a lleoliad i'w benderfynu.

01/2005/0664/PF

Disgrifiad: Dymchwel adeilad presennol, adeiladu 13 fflat ar gyfer yr henoed ac adeiladu mynediadau newydd i gerbydau/cerddwyr
**Hen Safle Sinema Highgate Dinbych**
PENDERFYNWYD RHOI caniatâd cynllunio yn amodol ar yr ymgeisydd yn gwneud ymrwymiad Adran 106 yn rheoli defnydd y fflatiau ar gyfer pobl oedrannus a bod 30% o'r fflatiau'n fforddiadwy, a thalu symiau cymudedig ar gyfer darparu lle agored oddi ar y safle
A'r Nodyn Ychwanegol canlynol i'r ymgeisydd
Wrth drafod y cais, gofynnodd Pwyllgor Cynllunio'r Cyngor bod y datblygiad yn cael enw gyda chysylltiad lleol e.e. Tan y Castell

01/2005/0665/CA

Disgrifiad: Dymchwel adeilad sinema (Caniatâd Ardal Gadwraeth)
**Hen Safle Sinema Highgate Cyngor Sir Ddinbych**
CANIATAWYD

02/2005/0333/PF

**Siaradwyr Cyhoeddus yn erbyn: Rhys Davies (CO-OP)**
**Gwyn Evans (Cydffederasiwn Busnesau Bychain)**
**Siaradwyr cyhoeddus o blaid: Keith Nutter (White Young Green)**
Datganodd y Cynghorydd Cefyn Williams ddiddordeb yn y cais canlynol a gadawodd y Siambr tra ystyriwyd y mater.
Ar ôl ystyried manylion ymweliad safle ar 24.08.2005 a llythyrau ychwanegol oddi wrth: Sustrans a White Young Green.
Disgrifiad: siop fwyd/amrywiol, gan gynnwys caffi, llawr cyntaf ar gyfer llety staff, compownd allanol da do a chanopi, adeiladau iard wasanaethu ategol a thanc ysgeintell a maes parcio cysylltiedig, gyda thirweddu a gwaith cysylltiedig gan gynnwys ail-linio'r ffordd.
**Cyn Faes Parcio'r Cyngor a Meithrinfa Lon Parcwr Rhuthun**
(Dymunodd y Cynghorydd I German, y Cynghorydd G M Kensler a'r Cynghorydd E R Jones gael nodi iddynt ymatal rhag pleidleisio)
(Dymunodd y Cynghorydd Eryl Williams gael nodi iddo bleidleisio yn erbyn)
CANIATAWYD yn amodol ar yr Amodau Diwygiedig canlynol:

2.(a) Trefniadau rheoli ar gyfer gweithredu'r maes parcio i ganiatáu i gwsmeriaid ymgymryd â thripiau cysylltiedig gyda Chanol Tref Rhuthun a mwynderau gerllaw
8. “0700 o'r gloch i 2200 o'r gloch Llun i Sadwrn, cynhwysol”
9. “0700 o'r gloch i 2200 o'r gloch Llun i Sadwrn, cynhwysol”
13. “30%”
Nodyn Ychwanegol i'r Ymgeisydd:
Nodir eich bwriad i osod Teledu Cylch Cyfyng ar y safle. Hoffai'r Cyngor ystyried y posibilrwydd o gael hwn i gyd-fynd â theledu cylch cyfyng arfaethedig yng Nghanol Tref Rhuthun ac mewn perthynas â hyn dylech gysylltu gyda Phennaeth Gwasanaethau Amgylcheddol y Cyngor o ran y math o system y bydd y Cyngor yn ei mabwysiadu.

10/2005/0103/PO

Disgrifiad:: Datblygu 0.26ha o dir at ddibenion preswyl (cais amlinell)
**Tir yn cyffinio Eglwys St Tysilio Bryneglwys Corwen**
CANIATAWYD Yn amodol ar yr amod canlynol:
4. (a)(i) O leiaf 30% o'r unedau tai i fod yn fforddiadwy, math a lleoliad i'w penderfynu.

12/2005/0725/PR

Disgrifiad: Adeiladu tŷ annedd a modurdy dwbl ar wahân.
**Llain 3, Tir yn cyffinio Bronallt Clawddnewydd Rhuthun**
CANIATAWYD, yn amodol ar newid Amod 3 – dileu'r darn olaf mewn cromfachau.

**Caniatáu yn groes i Argymhelliad**

10/2005/678/PC

**Siaradwr o blaid: Wyn Roberts**
Ar ôl ystyried 3 llythyr ychwanegol oddi wrth: CBY AHNE, Gwarchod y Cyhoedd, Yr Ymgeisydd
Disgrifiad: Parhau i ddefnyddio tir amaethyddol fel storfa a depo dosbarthu mewn cysylltiad gyda chontractwyr arwyneb ffordd, gan leoli cynwysyddion dur, peiriannau ac offer ategol (cais ôl-weithredol)
**Rhoslydan Bryneglwys Corwen**
CANIATAWYD, yn amodol ar y canlynol:
1. Dylai'r defnydd a ganiateir trwy hyn ddod i ben ac adfer y tir i'w gyflwr blaenorol ar neu cyn 31ain Awst 2008 yn unol â chynllun gwaith i'w gyflwyno i a'i gymeradwyo'n ysgrifenedig gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol
2. O fewn 2 fis i ddyddiad y penderfyniad hwn, dylid cyflwyno cynllun tirweddu meddal ar gyfer y safle i'r Awdurdod Cynllunio Lleol i'w gymeradwyo, a dylai cynllun o'r fath gynnwys manylion:
(a) Holl goed, gwrychoedd a llystyfiant arall ar y tir, manylion rhai i'w cadw a mesurau i'w gwarchod yn ystod y datblygiad;
(b) Coed, gwrychoedd, prysgwydd neu lystyfiant newydd arfaethedig, gan gynnwys cadarnhad o'r rhywogaeth, niferoedd a lleoliad;
(c) Lleoliad arfaethedig, dyluniad, deunyddiau a math o driniaeth i'r ffiniau.
3. Dylid gwneud yr holl blannu, tywarchu, ffensio, adeiladu muriau neu unrhyw driniaeth arall yn y manylion tirweddu a gymeradwyir yn y tymor plannu a hadu nesaf h.y. cyn diwedd Mawrth 2006 a dylid disodli unrhyw goed neu blanhigion sydd, o fewn cyfnod o bum mlynedd o'r datblygiad, yn marw, cael eu tynnu allan neu eu difrodi'n ddifrifol neu gydag afiechyd difrifol yn y tymor plannu nesaf gyda rhai o faint a rhywogaeth debyg.
4. Dim mwy na 5 cynhwysydd dur i'w lleoli ar y tir sy'n destun y caniatâd hwn a dylai holl gynwysyddion fod yn wyrdd tywyll a'u cadw felly.
Rhesymau:

(1). I ganiatáu arolygu effaith y defnydd er budd yr AHNE a'r rhwydwaith priffyrdd.
(2). Sicrhau safon resymol o ddatblygiad er budd mwynderau gweledol.
(3). Sicrhau safon foddhaol o ddatblygiad er budd mwynderau gweledol.
(4). Er budd golwg y datblygiad yn yr AHNE.
Cymerwyd y penderfyniad, SY'N GROES i argymhelliad y Swyddogion, am y rhesymau canlynol:
Effaith gyfyngedig ar yr AHNE, diogelu cyflogaeth leol.

**Gohirio ar gyfer Ymweliad Safle**

24/2005/0593PF

(Ar ôl ystyried 1 llythyr ychwanegol oddi wrth: Sian E Davies, Pant Glas Isa, Rhewl, Rhuthun)
Disgrifiad: Trosi hen adeiladau amaethyddol i ffurfio 5 tŷ annedd a gwaith cysylltiedig.
**Adeiladau allanol ym Mhant Glas Uchaf Bontuchel Rhuthun**

**312 <u>MATERION GORFODI</u>**

ENF/2005/00044

Ar ôl ystyried 1 llythyr ychwanegol oddi wrth: Y perchennog
Disgrifiad: Newid defnydd tir i ffurfio estyniad i ardd.
**Tir yn cyffinio Brackenwood, Village Road, Eryrys**
Cynigiodd y Cynghorydd Barton gyfnod gohirio pellach. O roddi hyn i bleidlais, fe'i trechwyd.
PENDERFYNWYD peidio â chymryd camau pellach.

ENF/2005/00045

Ar ôl ystyried 1 llythyr ychwanegol oddi wrth: Y perchennog
Disgrifiad: newid defnydd tir i ffurfio estyniad i ardd.
**Tir yn cyffinio Ashgrove, Mynydd Du Eryrys**
Cynigiodd y Cynghorydd Barton gyfnod gohirio pellach. O roddi hyn i bleidlais, fe'i trechwyd.
PENDERFYNWYD peidio â chymryd camau pellach.

ENF/2004/00066

Disgrifiad: Gosod caeadau rholio, blwch metel cysylltiedig a chanopi plastig.
**The Grapevine 87 Stryd Fawr Prestatyn**
(Pleidleisiodd y Cynghorwyr P Owen a J T Hill yn erbyn gweithredu)
PENDERFYNWYD rhoi awdurdod ar gyfer y canlynol:
(i) Cyflwyno Hysbysiad Gorfodi i sicrhau tynnu ymaith y caeadau rholio, blwch metel a chanopi plastig.
(ii) Cychwyn camau erlyn, neu gamau priodol eraill dan y Ddeddf Cynllunio, yn erbyn unrhyw berson neu bersonau i'r rhain y cyflwynir unrhyw Hysbysiad Gorfodi, neu yn erbyn y rhain y cymerir camau cyfreithiol os methant â chydymffurfio gyda gofynion yr Hysbysiad Gorfodi.

ENF/2004/00069

Disgrifiad: Gosod caeadau rholio a blwch metel cysylltiedig.
**Female Associates 102 Stryd Fawr Prestatyn**
(Pleidleisiodd y Cynghorwyr P Owen a J T Hill yn erbyn gweithredu)
PENDERFYNWYD rhoi awdurdod ar gyfer y canlynol:
(i) Cyflwyno Hysbysiad Gorfodi i sicrhau tynnu ymaith y caeadau rholio, a'r blwch metel cysylltiedig.
(ii) Cychwyn camau erlyn, neu gamau priodol eraill dan y Ddeddf Cynllunio, yn erbyn unrhyw berson neu bersonau i'r rhain y cyflwynir unrhyw Hysbysiad Gorfodi, neu yn erbyn y rhain y cymerir camau cyfreithiol os methant â chydymffurfio gyda gofynion yr Hysbysiad Gorfodi.

ENF/2004/00073 Disgrifiad: Gosod caeadau rholio a blwch metel cysylltiedig.
**Regal Pictures 136 Stryd Fawr Prestatyn**
(Pleidleisiodd y Cynghorwyr P Owen a J T Hill yn erbyn gweithredu)
PENDERFYNWYD rhoi awdurdod ar gyfer y canlynol:
(i) Cyflwyno Hysbysiad Gorfodi i sicrhau tynnu ymaith y caeadau rholio, a'r blwch metel cysylltiedig.
(ii) Cychwyn camau erlyn, neu gamau priodol eraill dan y Ddeddf Cynllunio, yn erbyn unrhyw berson neu bersonau i'r rhain y cyflwynir unrhyw Hysbysiad Gorfodi, neu yn erbyn y rhain y cymerir camau cyfreithiol os methant â chydymffurfio gyda gofynion yr Hysbysiad Gorfodi.
(Pleidleisiodd y Cynghorydd P Owen i beidio â gweithredu)
(Roedd yr aelodau'n barod i ystyried dyluniad mwy sympathetig ar gyfer yr eiddo yn Ardal Gadwraeth y Stryd Fawr).

**313 TROSI ADEILADAU GWLEDIG YN DAI ANNEDD**

Cyflwynwyd adroddiad gan y Pennaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd yn hysbysu'r aelodau ar ddehongliad polisïau'n ymwneud â throsi adeiladau gwledig yn dai a'r angen am brofion marchnata cyn ystyried rhoi caniatâd. Ar ôl peth trafodaeth, PENDERFYNWYD bod aelodau'n cytuno gyda dehongliad y polisïau fel y nodwyd yn yr adroddiad a chynghori aelodau ward lleol pan fo materion penodol yn codi yn eu hardaloedd hwy.

Gofynnwyd i'r swyddogion baratoi adroddiad tebyg er gwybodaeth i'r aelodau ar Bolisi HSG 5.

**314 DYDDIAD YMWELIAD SAFLE**

Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd (a ddosbarthwyd ymlaen llaw) yn gofyn am gymeradwyaeth i ymweliadau safle yn deillio o Eitem 2 ar y Rhaglen, ac yn hysbysu'r pwyllgor o aelodaeth bresennol y Panel Ymweliadau Safle.

**PENDERFYNWYD** cynnal yr ymweliad safle ar ddiwrnod ymweliadau safle cyn-Pwyllgor cyn y Pwyllgor Cynllunio nesaf (dyddiad i'w drefnu).

**315 RHESTR O GEISIADAU A GAFODD EU TRIN DAN HAWLIAU DIRPRWYEDIG**

Cyflwynodd y Pennaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd ei adroddiad (a ddosbarthwyd ymlaen llaw) yn manylu ceisiadau am Ganiatâd Cynllunio a benderfynwyd ganddo ef dan awdurdod dirprwyedig rhwng 1af Gorffennaf 2005 a 31ain Gorffennaf 2005.

***PENDERFYNWYD** derbyn yr adroddiad*

Daeth y cyfarfod i ben am 12.34pm.

********